# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Byw â Chymorth Glanmorfa**

**52-54 Station Road**
**Cydweli**
**SA17 4UR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/03/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Byw â Chymorth Glanmorfa

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Glanmorfa Care Home Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15 Tachwedd 2021 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru, gan nad oes unrhyw un sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn siarad Cymraeg. |

## Crynodeb

Yn gyffredinol, mae tîm staff Byw â Chymorth Glanmorfa yn ymdrechu i helpu'r bobl i fyw fel y dymunant ac i gynnal eu hannibyniaeth. Mae'r bobl a'u perthnasau yn frwdfrydig am y cymorth y maent yn ei gael, ac yn dweud bod y gweithwyr gofal yn eu cefnogi'n dda. Mae'r gweithwyr gofal yn frwdfrydig ac am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl, gan ganolbwyntio ar anghenion pob unigolyn. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y tîm rheoli. Mae sianeli cyfathrebu da yn amlwg ym mhob rhan o'r gwasanaeth ac mae systemau cadarn ar waith i fonitro ansawdd y gofal a ddarperir.

## Llesiant

Mae'r bobl a'u perthnasau yn fodlon iawn ar y gwasanaeth y maent yn ei gael gan Byw â Chymorth Glanmorfa. Mae'r cofnodion gofal yn adlewyrchu anghenion cymorth pob unigolyn yn fanwl, ac mae'r gweithwyr gofal yn ymwybodol o bwysigrwydd llesiant pob unigolyn: maent yn cefnogi pob unigolyn fel y dymuna, a dywed y bobl a'u perthnasau fod y gweithwyr gofal yn garedig, yn ofalgar, yn barchus ac yn broffesiynol.

Mae pob person sy’n cael cymorth yn mwynhau ei hobïau a’i ddiddordebau ei hun bob dydd: mae'r bobl yn adnabod eu hardal leol, maent yn mynd ar wyliau i amrywiaeth o lefydd, yn mwynhau cyngherddau yn y lleoliadau gorau ledled Cymru, ac yn cymdeithasu ac yn chwerthin gyda'i gilydd bob dydd – ac yn gyffredinol yn mwynhau bywyd. Mae cydberthnasau dwfn a dilys rhwng tîm y staff a’r bobl sy’n derbyn cymorth, ac mae cryn dipyn o hiwmor i'w weld rhyngddynt.

Mae'r bobl yn nodi eu bod yn teimlo'n ddiogel gyda'r gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi. Dywed y perthnasau hefyd eu bod yn cael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr holl benderfyniadau a wneir am yr aelod o'u teulu. Fodd bynnag, mae'r cofnodion gofal yn cael eu diweddaru er mwyn defnyddio fformat newydd ar hyn o bryd: felly nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i dogfennu ar hyn o bryd i ddangos bod y bobl yn cytuno â’u cynnwys. Ond bydd y rheolwr yn sicrhau bod tystiolaeth ar gael bod y bobl neu aelod o'u teulu/eiriolwr wedi cymryd rhan yn y broses. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i bob person bod ei anghenion a'i ddewisiadau personol yn cael eu deall yn iawn.

Dywed y bobl a'r perthnasau eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn a'u bod yn hyderus y byddai uwch-aelodau o'r staff yn gwrando arnynt pe baent yn gwneud hynny. Caiff preifatrwydd a gwybodaeth bersonol pob unigolyn eu diogelu bob amser.

Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl sy'n defnyddio ei wasanaeth, neu'n bwriadu defnyddio ei wasanaeth oherwydd er bod rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg, nid oes unrhyw un sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn siarad Cymraeg.

## Gofal a Chymorth

Ar y cyfan, mae’r tîm staff yn sicrhau bod cynlluniau cywir ar waith sy’n disgrifio cymorth y bobl ac yn eu helpu i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl ar eu cyfer. Mae'r tîm rheoli yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth er mwyn sicrhau y gall ddiwallu anghenion y bobl cyn rhoi eu cymorth ar waith. Mae hyn yn cynnwys casglu cymaint o wybodaeth â phosibl gan berthnasau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fel gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol a therapyddion lleferydd ac iaith. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, mae uwch-aelodau o'r staff yn datblygu cofnodion gofal sy’n disgrifio trefniadau cymorth y bobl, ynghyd ag unrhyw ofynion penodol a nodir yn ystod y broses. Gall pob gweithiwr gofal gael gafael ar y wybodaeth hon er mwyn sicrhau bod pob person bob amser yn cael y cymorth cywir. Er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol, caiff pob cofnod gofal ei adolygu'n rheolaidd, ac yn amlach lle bynnag y bydd anghenion cymorth yn newid. Mae'r bobl a'u perthnasau yn fodlon ar y cymorth y maent yn ei gael. Dywedodd un perthynas, “*Oh yes, everything is lovely, we don’t worry at all.”*

Mae polisïau a gweithdrefnau manwl gan y darparwr i reoli'r risg o heintiau. Mae mesurau ar waith i sicrhau bod y bobl yn cael eu cadw'n ddiogel rhag heintiau cyn belled ag y bo modd. Mae hyn yn cynnwys monitro pob ymwelydd a'r defnydd priodol o gyfarpar diogelu personol gan bob gweithiwr gofal. Dywed y bobl a'r perthnasau fod arferion hylendid da ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

I'r graddau y bo'n bosibl, mae'r gwasanaeth yn cymryd camau i ddiogelu'r bobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Caiff risgiau i iechyd a llesiant y bobl eu cofnodi'n glir a'u lleihau fel y gall y bobl aros mor annibynnol â phosibl. Mae'r gweithwyr gofal yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac yn hyderus i'w defnyddio pe bai angen. Gwnaethant ddweud y byddent yn siarad â'r rheolwr yn y lle cyntaf, ond y byddent yn hyderus i gysylltu ag asiantaethau allanol, megis y tîm diogelu, pe baent o'r farn bod angen gwneud hynny.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ar y cyfan, mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i feithrin diwylliant sy'n sicrhau y caiff y canlyniadau gorau posibl eu cyflawni i'r bobl. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn goruchwylio'r cymorth a ddarperir i'r bobl bob dydd yn rheolaidd, a cheir cyswllt rheolaidd â theuluoedd y bobl a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal. Mae adroddiadau sicrhau ansawdd manwl yn monitro pob agwedd ar drefniadau gofal y bobl, ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau adolygiadau cyffredinol o'r gwasanaeth bob tri mis.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod digon o weithwyr gofal gwybodus a medrus ar gael i ddarparu'r cymorth cywir i'r bobl. Gwneir gwiriadau cyn cyflogi cyn i weithwyr newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, dogfennau adnabod â llun a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.Mae'r rhaglen sefydlu staff yn cysylltu â 'Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.' Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod pob gweithiwr wedi ymgymryd â'r hyfforddiant hanfodol diweddaraf: cadarnhaodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod wedi cael yr holl hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gefnogi'r bobl yn briodol.

Cyhyd ag y bo'n bosibl, mae'r darparwr yn cymryd camau priodol i ddiogelu'r bobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth.  Mae'r tîm o staff yn sicrhau eu bod yn diogelu unrhyw wybodaeth breifat a phersonol. Mae'r polisi a'r gweithdrefnau diogelu yn unol â deddfwriaeth gyfredol a gweithdrefnau diogelu lleol. Mae uwch-aelodau o'r staff yn sicrhau bod yr holl gofnodion gofal yn nodi unrhyw risgiau i lesiant y bobl yn glir, ac mae'r cynlluniau rheoli risg manwl yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel ac mor annibynnol â phosibl. Yn ogystal, mae cofnodion hyfforddiant y gweithwyr yn dangos tystiolaeth bod hyfforddiant diogelu wedi'i gwblhau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 16 | Nid oes unrhyw dystiolaeth bod y bobl yn cael eu cynnwys wrth adolygu eu cofnodion gofal. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/04/2023